POLISI CODI TÁL AM WEITHGAREDDAU

Credir bod rhai gweithgareddau addysgol a gynigir fel rhan o'r cwricwlwm cyflawn yn Ysgol Waunfawr yn teilyngu cyfraniad ariannol gan y rhieni. Teimlir ei bod yn bwysig i bob plentyn gael cymryd rhan yn y gweithgareddau yma, fodd bynnag, ac na ddylai amgylchiadau ariannol unrhyw deulu rwystro disgybl rhag ymuno â'i gyfoedion.

1. Ni chodir tâl ar ddisgyblion am eu derbyn i'r ysgol nac am y llyfrau a'r offer a ddefnyddir ganddynt.

2. Ni chodir tâl am wersi nofio ond gofynnir am gyfraniad tuag at gostau bws. Adolygir y góst pob dwy flynnedd.Cost ar hyn o bryd yw £1.50.

3. Gofynnir am gyfraniad ariannol am wersi offerynnol.Mae Ysgolion y Dalgylch wedi cytuno mai £35.00 y tymor (£105.00 y flwyddyn) yw'r góst ar hyn o bryd.Disgwylir i rieni ymrwymo i'r gwersi am y flwyddyn.

4. Gofynnir am gyfraniad ariannol tuag at ymweliadau a gweithgareddau preswyl.

5. Gofynnir yn achlysurol am gyfraniad ariannol tuag at berfformiadau a gynigir oddi mewn i'r ysgol.

6. Mewn rhai achosion gofynnir i rieni dalu am eitemau o eiddo'r ysgol a gollir neu a ddifrodir gan y disgybl/ion boed yn fwriadol neu yn ddamweiniol, trwy esgeulustod neu gam-ymddygiad.

Adolygwyd Medi 23ain 2015

Cadeirydd ……..Mr Alun Elis
Pennaeth ……Mrs Gwenan Williams